Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SOCIAL RESEARCH NUMBER:
58/2018
PUBLICATION DATE:
25/10/2018

Archwilio ymatebion banciau bwyd Cymru i dlodi mislif: Canlyniadau arolwg ar-lein a gynhaliwyd ar raddfa fechan

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-78964-306-0

Teitl: Archwilio ymatebion banciau bwyd Cymru i dlodi mislif: Canlyniadau arolwg ar-lein a gynhaliwyd ar raddfa fechan

Awdur: Katrina Morrison

Adroddiad Ymchwil Llawn: Morrison K (2018). *Archwilio ymatebion banciau bwyd Cymru i dlodi mislif: Canlyniadau arolwg ar-lein a gynhaliwyd ar raddfa fechan*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif yr adroddiad GSR 58/2018.
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/exploring-welsh-food-bank-responses-to-period-poverty/?lang=cy

Sylwadau'r ymchwilydd, nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd, a geir yn yr adroddiad hwn

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Katrina Morrison
Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 8528
E-bost: Katrina.Morrison@llyw.cymru

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 2
1 Cyflwyniad/Cefndir 6
2 Methodoleg 9
3 Canfyddiadau 12
4 Casgliadau 17
5 Cyfeiriadau 19
Atodiad A 20

Crynodeb Gweithredol

- Mae'r papur hwn yn ymdrin â darn o waith ymchwil mewnol a gynhaliodd gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ar sail arolwg o nifer o fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell a banciau bwyd annibynnol yng Nghymru. Mae'r gwaith ymchwil wedi canolbwyntio ar brofiadau'r banciau bwyd hyn o ran y cyflenwadau o nwyddau hylendid i ferched yn y banciau bwyd hyn.
- Roedd tri amcan cyffredinol i'r gwaith ymchwil. Yn gyntaf, roedd am archwilio pa mor gyffredin oedd tlodi mislif o safbwynt y rhai a oedd yn gwirfoddoli ac yn gweithio yn y banciau bwyd a darganfod a oedd gwaith yn mynd rhagddo ym manciau bwyd Cymru i ymdrin ag unrhyw gynnydd yn y galw am nwyddau hylendid. Amcan arall oedd darganfod a oedd unrhyw gamau ymarferol yn cael eu cymryd ar lawr gwlad i gyflenwi nwyddau hylendid i ferched a dod o hyd i unrhyw enghreifftiau o arfer gorau. Yr amcan olaf oedd meithrin dealltwriaeth well o dlodi mislif drwy'r wybodaeth a gasglwyd am brofiadau banciau bwyd.
- Dosbarthwyd arolwg ar-lein byr i'r 37 o fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yng Nghymru a 5 elusen arall sy'n rhedeg banciau bwyd yn y wlad. Felly, at ei gilydd, cysylltwyd â sampl o 42 o fanciau bwyd. Ymatebodd 28 o gynrychiolwyr y banciau bwyd i'r arolwg, sef cyfradd ymateb o 67%.

Darparu nwyddau hylendid

- Dywedodd pob un o'r 28 a ymatebodd eu bod yn cyflenwi nwyddau hylendid i'w cwsmeriaid ac mai'r ffaith eu bod yn ymwybodol o dlodi mislif oedd y prif reswm dros wneud hynny. Yn y 21 o fanciau bwyd a oedd yn cynnig y nwyddau, byddai staff yn gofyn i gwsmeriaid yn uniongyrchol a oedd angen nwyddau hylendid arnynt ac yn eu cynnig os oedd angen. O'r 28 o ymatebwyr, dywedodd 22 fod pobl hefyd yn gofyn am y nwyddau ar ran eu partner neu aelodau eraill o'r teulu.
- Dywedodd deg o fanciau bwyd eu bod yn cynnwys yr eitemau fel rhan o becyn o nwyddau ymolchi cyffredinol a dywedodd 13 eu bod yn eu cynnwys fel pecyn o nwyddau hylendid i ferched. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr fod eu cwsmeriaid yn cael dewis y math o nwyddau roeddent am eu cael.

- Gofynnwyd i'r banciau bwyd a oedd ganddynt unrhyw drefniadau ymarferol ar waith ar y safle i helpu i ddarparu nwyddau hylendid i ferched. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod wedi cymryd camau i sicrhau preifatrwydd ac urddas eu cwsmeriaid e.e. storfa ychwanegol ar gyfer yr eitemau hyn. Soniodd naw o fanciau bwyd am y camau roeddent yn eu cymryd i gael y nwyddau hyn a soniodd pedwar am hyfforddi gwirfoddolwyr.

Adborth gan gwsmeriaid

- At ei gilydd, tynnodd 12 o ymatebwyr sylw at y ffaith eu bod wedi cael rhyw fath o adborth gan gwsmeriaid mewn perthynas â'u cyflenwad o nwyddau hylendid. Dywedodd 10 o'r rhain fod cwsmeriaid wedi diolch iddynt ar ôl cael y nwyddau hyn gan nodi bod hynny'n gryn ryddhad iddynt.

Rhoddion

- Dywedodd y 28 o ymatebwyr fod eu banciau bwyd yn cael nwyddau hylendid yn rhodd. Rhoddion gan y cyhoedd oedd y rhain yn ôl 25 o'r 28 o'r ymatebwyr. Dywedodd pedwar ymatebydd eu bod yn cael y nwyddau gan elusennau ac roedd un yn eu cael gan gynhyrchwyr nwyddau hylendid.
- Roedd 12 o ymatebwyr, at ei gilydd, wedi gwneud cais am roddion neu roeddent yn cynnwys nwyddau hylendid yn eu rhestr o eitemau y gellid eu cyfrannu. Archfarchnadoedd neu siopau fel fferyllfeydd oedd fwyaf tebygol o roi nwyddau hylendid i'r banciau bwyd. Soniodd nifer fechan o'r banciau bwyd am y cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o ledaenu'r neges am yr angen i gyfrannu nwyddau hylendid, a chyfeiriwyd hefyd at grwpiau ac elusennau lleol. Ar y cyfan, roedd y ceisiadau hyn am roddion yn llwyddiannus.

Maint y galw am nwyddau hylendid / y nifer sy'n eu cymryd

- Yn ôl 21 o fanciau bwyd, roedd maint y galw am nwyddau hylendid yn "uchel" neu roedd "rhywfaint" o alw amdanynt. Dywedodd tri fod y galw'n isel a dywedodd y pedwar arall fod y nwyddau'n cael eu cynnig fel mater o drefn ac, felly, nid oeddent yn gwybod faint o alw oedd amdanynt mewn gwirionedd.

- O’r holl ymatebwyr, dywedodd 23 o fanciau bwyd fod y nifer a oedd yn cymryd nwyddau hylendid yn “uchel” neu fod “rhywfaint” yn eu cymryd. Ni allai tri roi sylw gan fod y nwyddau’n cael eu cynnig fel mater o drefn. Dim ond dau fanc bwyd ddywedodd fod y galw’n “isel”.

Rhagor o sylwadau gan y banciau bwyd

- Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnwyd i’r holl ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau eraill i’w cynnig mewn perthynas â thlodi mislif. Cafodd y sylwadau hyn eu dadansoddi i weld a oedd unrhyw themâu yn dod i’r amlwg.
- Un thema a ddaeth i’r amlwg yn y sylwadau oedd bod cysylltiad rhwng y rhoddion a’r sylw roedd tlodi mislif wedi’i gael yn y wasg yn ddiweddar. Dywedodd rhai o’r ymatebwyr eu bod yn teimlo’u bod yn cael mwy o nwyddau, a hynny’n fwy rheolaidd, oherwydd bod y pwnc yn cael mwy o sylw yn y wasg.
- Un thema arall a ddaeth i’r amlwg yn y sylwadau oedd nwyddau hylendid mewn ysgolion. Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd gan rai ymatebwyr am ferched ysgol a oedd yn dibynnu ar roddion a, hebddynt, ni fyddai ganddynt nwyddau hylendid a nwyddau ymolchi eraill.

Casgliadau

- Mae’r adroddiad hwn wedi’i seilio ar sampl fechan o fanciau bwyd Cymru; fodd bynnag, mae’n cynnig darlun gwerthfawr o’r gwaith sy’n mynd rhagddo yn y banciau bwyd ar hyn o bryd i leihau tlodi mislif. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn cyflenwi nwyddau hylendid i gwsmeriaid eu banciau bwyd ac mae’r rhain, ar y cyfan, yn cael eu cynnig i’r rhai sy’n ymweld â’r banciau bwyd, yn hytrach na bod angen i gwsmeriaid ofyn am eitemau.
- O’r rhai sy’n cynnig yr eitemau, mae’n ymddangos y bydd banciau bwyd, yn gyffredinol, yn *gofyn i gwsmeriaid yn uniongyrchol* a oes angen nwyddau hylendid arnynt ai peidio. Dangosodd nifer o safleoedd eu bod yn ymwybodol nad dim ond cwsmeriaid benywaidd sy’n awyddus i gael y nwyddau hyn.

- Dywedodd hanner yr ymatebwyr nad oedd eu cwsmeriaid wedi rhoi adborth iddynt am nwyddau hylendid, ond roedd cyfran ohonynt wedi cael adborth. Roedd yr adborth hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y teimlad o ryddhad fod y gwasanaeth ar gael. Dywedodd pob un o'r 28 o ymatebwyr eu bod wedi cael y nwyddau fel rhodd, a'r rhan fwyaf ohonynt gan y cyhoedd. Roedd 16 o'r ymatebwyr wedi gofyn am roddion - gan archfarchnadoedd neu siopau fel fferyllfeydd yn bennaf; bu'r ceisiadau hyn yn llwyddiannus ar y cyfan.
- Dywedodd 21 o fanciau bwyd fod y galw am nwyddau hylendid yn "uchel" neu fod "rhywfaint" o alw amdanynt. Yn yr un modd, dywedodd 23 o fanciau bwyd fod y nifer a oedd yn cymryd nwyddau hylendid yn "uchel" neu fod "rhai" yn eu cymryd.
- Roedd yr ymatebion ansoddol yn graff a daeth dwy brif thema i'r amlwg mewn perthynas â thlodi mislif. Y thema gyntaf oedd bod cysylltiad rhwng rhoddion a'r sylw roedd tlodi mislif wedi'i gael yn y wasg yn ddiweddar, a'r ail oedd y nwyddau hylendid a oedd ar gael mewn ysgolion a'r effaith y teimlai'r ymatebwyr roedd tlodi mislif yn ei chael ar ddisgyblion ysgol. Roedd hyn yn bennaf yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd gan yr ymatebwyr.

1 Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn dyrannu £1.14 miliwn i helpu i fynd i'r afael â thlodi mislif yng nghymunedau Cymru. Caiff y term "tlodi mislif" ei ddefnyddio i ddisgrifio sefyllfa pan nad yw merched yn gallu fforddio prynu nwyddau hylendid.

1.2 Mae disgwyl i awdurdodau lleol gael £440,000 fel rhan o'r dyraniad hwn dros y ddwy flynedd nesaf i'w helpu i leihau tlodi mislif yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae £700,000 arall o arian cyfalaf hefyd wedi'i ddyrannu i wella toiledau ac offer hylendid mewn ysgolion, fel biniau pwrpasol, i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gallu rheoli eu mislif ag urddas.

1.3 Mae Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, wedi datgan:

"Cynghorau lleol sydd yn y sefyllfa orau i wybod ym mhle mae angen gweithredu'n effeithiol er mwyn trechu tlodi misglwyf yn eu cymunedau, a dyna pam rydyn ni'n gofyn iddyn nhw ddefnyddio'r cyllid hwn i ddosbarthu cynhyrchion hylendid benywaidd i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

"Gallai hyn ddigwydd drwy grwpiau cymunedol, ysgolion neu fanciau bwyd. Rydyn ni wedi clywed adroddiadau bob mamau yn mynd heb er mwyn gwneud yn siŵr y gall eu merched gael gafael ar gynhyrchion hylendid ac mae hyn yn gwbl annerbyniol yn y gymdeithas sydd ohoni. Bydd y cyllid hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r angen gwirioneddol hwn."[1]

1.4 Mae'r dystiolaeth am faint tlodi mislif yng Nghymru a'r DU yn ehangach yn brin. Cyhoeddodd yr elusen Plan International ffigurau ddiwedd 2017, yn seiliedig ar arolwg o 1,000 o ferched 14-21 oed drwy'r DU, a oedd yn dangos bod 1 o bob 10 o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg wedi methu fforddio nwyddau hylendid a bod 1 o bob 7 wedi gorfod gofyn i ffrind roi benthyg nwyddau o'r fath iddynt gan nad oedden nhw'n gallu eu fforddio. Yn ogystal â hyn, roedd ychydig dros 1 o bob 10 o'r merched a gymerodd ran yn yr arolwg (12 y cant) wedi datgelu eu bod wedi gorfod addasu eitemau eraill i'w defnyddio at ddibenion hylendid, a hynny oherwydd prinder arian.

[1] Llywodraeth Cymru. 2018:

1.5 Fodd bynnag, nid yw'r gwaith ymchwil hwn wedi ymdrin â'r problemau y gallai merched dros 21 oed fod yn eu hwynebu. At hyn, gallai ystod oed y rhai a ymatebodd i'r arolwg awgrymu bod y teulu ehangach yn ei chael yn anodd fforddio prynu'r nwyddau hyn, oherwydd y bydd cyfran o'r merched 14-21 oed dan sylw'n ddibynnol ar incwm rhiant neu warcheidwad.

1.6 Yn ogystal â hyn, mae fforddiadwyedd nwyddau hylendid yn broblem sydd wedi cael cyhoeddusrwydd yn ddiweddar oherwydd y trafodaethau ynghylch y TAW a roddir arnynt; sef y "dreth tampon". Ar hyn o bryd mae treth o 5% yn cael ei chodi ar y nwyddau hyn yn y DU, ac yng ngwanwyn 2016, cafodd deiseb i ddiddymu'r dreth dros 300,000 o lofnodion.

Mae Adran Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU wedi sefydlu Cronfa Treth Tampon. Mae'r Gronfa hon wedi rhoi cymorth ariannol, gwerth tua £47m, i amrywiaeth eang o brosiectau drwy'r DU i helpu merched o bob oed ers 2015.

1.7 Mae crynodeb gwirio ffeithiau a gynhyrchodd Channel 4 yn ddiweddar yn tanlinellu y gall fod yn anodd i rai fforddio prynu nwyddau hylendid, ni waeth beth yw cost mislif arferol, er y gall y swm hwnnw ymddangos yn weddol fforddiadwy i'r rhai ar incwm uwch. Wrth amcangyfrif faint y bydd pobl yn ei wario ar nwyddau hylendid bob blwyddyn, mae'r canlyniadau'r amrywio, a gall profiadau merched unigol fod yn wahanol iawn am resymau amrywiol iawn. Er enghraifft, bydd angen i ferched sy'n cael mislif trwm wario mwy na'r rhai sy'n cael mislif ysgafn. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen prynu meddyginiaeth ychwanegol i helpu i reoli'r boen y gall y mislif ei achosi.

Arolwg o fanciau bwyd - tlodi mislif

1.8 O ystyried bod gwaith ymchwil yn brin, nodwyd bod angen cynnal rhagor o waith ymchwil i geisio meithrin dealltwriaeth ehangach o dlodi mislif yng Nghymru a cheisio gweld pwy sy'n dioddef fwyaf oherwydd y broblem a pha gamau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i'w datrys. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar waith ymchwil gan Ymchwilwyr Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Arolwg ar-lein byr oedd hwn a anfonwyd at sampl o fanciau bwyd yng Nghymru. Defnyddiwyd y canlyniadau

i ddechrau datblygu corff o dystiolaeth am dlodi mislif a dysgu am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad i helpu'r rhai sy'n wynebu'r broblem.

1.9 Y sail resymegol dros benderfyniad Llywodraeth Cymru i anfon arolwg i fanciau bwyd yw datblygu'r gwaith a wnaed eisoes gan Ymddiriedolaeth Trussell yn 2017 i dlodi mislif ym manciau bwyd yr Alban, gan fesur yr angen ac archwilio sut y caiff nwyddau hylendid eu darparu a'u cyflenwi. Nododd yr adroddiad hwn, a gyhoeddwyd yn 2017, nad oedd tua 50% o'r rhai a holwyd tra oeddent mewn banc bwyd yn gallu fforddio nwyddau ymolchi. O ganlyniad, mae tlodi mislif yn cael lle blaenllaw yn y drafodaeth gyhoeddus ac mae wedi ennyn diddordeb Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban.

1.10 Fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ddyrannu £5.2m i ddarparu nwyddau hylendid yn gyffredinol ym mhob ysgol, coleg a phrifysgol. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth penodol i deuluoedd ar incwm isel. Bydd FareShare[2] yn cael dros £500,000 i ddosbarthu nwyddau hylendid i oddeutu 18,800 o bobol yn yr Alban.

[2] "FareShare yw'r elusen gyntaf yn y DU i geisio sicrhau bod pobl yn cael digon i'w fwyta ac i frwydro yn erbyn gwastraff bwyd. Maent yn ailddosbarthu gwastraff bwyd i elusennau rheng flaen a grwpiau cymunedol", Llywodraeth yr Alban, 2018.

2 Methodoleg

Nodau ac amcanion

2.1 Dyma brif amcanion y gwaith ymchwil hwn:

- archwilio pa mor gyffredin yw tlodi mislif o safbwynt y rhai sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli mewn banciau bwyd a darganfod a yw banciau bwyd Cymru yn cymryd camau i ymdrin ag unrhyw gynnydd posibl yn y galw am nwyddau hylendid i ferched
- deall y camau ymarferol sy'n cael eu cymryd ar lawr gwlad i gyflenwi nwyddau hylendid ac i ddod o hyd i unrhyw enghreifftiau o arfer gorau
- deall tlodi mislif drwy ystyried y wybodaeth a gaiff ei chasglu am brofiadau banciau bwyd.

Dull

Sampl

2.2 Drwy'r DU, mae gan Ymddiriedolaeth Trussell rwydwaith o 420 o fanciau bwyd sy'n gweithredu mewn 1,230 o ganolfannau yn genedlaethol. Yng Nghymru, mae gan Ymddiriedolaeth Trussell 37 o fanciau bwyd a rhwydwaith o 112 o ganolfannau cysylltiol a, rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, dosbarthodd yr elusen 98,350 o barseli bwyd brys, a fyddai'n para am dri diwrnod[3]. Yn ogystal â banciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell, mae grwpiau cymunedol a chyrff elusennol eraill yn rhedeg banciau bwyd yng Nghymru.

2.3 Mae'r dasg o fapio'r rhwydwaith, a phennu faint yn union o fanciau bwyd sydd, yn un anodd a dim ond yn ddiweddar y crëwyd cronfa ddata gydlynol i nodi lle'r roedd y banciau bwyd, ni waeth pwy oedd yn eu rhedeg. Fodd bynnag, mae Prifysgol Bangor wedi ymgymryd â gwaith yn ddiweddar (Beck *et al.* 2016) i fapio banciau bwyd yng Nghymru ac i gofnodi sut y mae'r nifer wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

[3] Ymddiriedolaeth Trussell. Ystaddegau diwedd blwyddyn 2017-2018.

2.4 Tanlinellodd Beck *at al.* (2016) y problemau a all godi wrth geisio olrhain banciau bwyd gan mai presenoldeb bach iawn sydd gan rai banciau bwyd annibynnol ar y we, ac nid yw rhai'n ymddangos ar y we o gwbl, felly mae'n bosibl na fyddai'r gymuned leol yn gwybod amdanynt. Yn ôl papur Beck *et al.* (2016) roedd 157 o safleoedd yn gweithredu fel banciau bwyd yng Nghymru pan gasglwyd y data fis Gorffennaf 2015, ac roedd y rhain yn cynnwys canolfannau a banciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell a banciau bwyd annibynnol.

2.5 Oherwydd prinder adnoddau, ac oherwydd y problemau y cyfeiriwyd atynt o ran olrhain holl fanciau bwyd Cymru, nid oedd yn bosibl sicrhau sampl a oedd yn cynrychioli holl fanciau bwyd Cymru at ddibenion y gwaith ymchwil hwn. O ganlyniad, roedd y sampl o fanciau bwyd a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil hwn yn dibynnu ar y rhai a oedd ar gael ar y pryd, gan gynnwys holl fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell Cymru a nifer fechan o gyrff elusennol ychwanegol.

2.6 Bwriedir i'r arolwg fod yn ddarn o waith ymchwiliol i geisio meithrin dealltwriaeth gychwynnol o ymatebion banciau bwyd i gwsmeriaid a allai fod yn wynebu tlodi mislif. Mae hefyd yn gobeithio datgelu pa mor gyffredin yw'r broblem yn y banciau bwyd sy'n cymryd rhan yn y gwaith ymchwil ac amlygu rhai o'r themâu sy'n codi'n gyson.

2.7 Roedd y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys arolwg ar-lein byr a ddosbarthwyd i sampl o'r 37 o fanciau bwyd y mae Ymddiriedolaeth Trussell yn eu rhedeg yng Nghymru a phump o elusennau eraill sy'n rhedeg banciau bwyd yn y wlad. Cysylltwyd felly â 42 o fanciau bwyd, a hynny drwy gyfrwng yr e-bost yn gofyn iddynt gymryd rhan yn yr arolwg. Ymatebodd 28 o fanciau bwyd, sy'n gyfradd ymateb o 67%.

2.8 O ran nifer y cwsmeriaid roedd yr ymatebwyr yn eu rheoli bob wythnos ar gyfartaledd, dywedodd 10 o'r 28 eu bod yn gwasanaethu 0-20 o gwsmeriaid ar gyfartaledd bob wythnos. Dywedodd chwech eu bod yn gwasanaethu 21-50, ac roedd saith yn gwasanaethu rhwng 51a100 bob wythnos. Roedd pump ohonynt yn gwasanaethu dros 100 o gwsmeriaid bob wythnos.

Yr arolwg

Roedd yr arolwg yn gofyn am wybodaeth am nifer o bynciau, gan gynnwys:

- darparu nwyddau hylendid i ferched / sut cânt eu cyflenwi
- rhoi'r nwyddau / pwy sy'n rhoi'r nwyddau
- y galw am y nwyddau a phwy sy'n eu cymryd.

2.9 Roedd yr arolwg yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau caeedig i gasglu data meintiol gan y banciau bwyd a ymatebodd. Roedd nifer o gwestiynau'n gofyn am un ateb penodol; roedd eraill yn rhoi cyfle i'r ymatebwyr ddewis amrywiaeth o atebion.

2.10 Yn ogystal â hyn, roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o gwestiynau penagored y gallai'r ymatebwyr eu hateb drwy droi eu barn a'u teimladau am y pynciau dan sylw, a hynny er mwyn cael gwybodaeth ansoddol a chreu darlun manylach o brofiadau'r rhai sy'n gwirfoddoli i weithio mewn banciau bwyd, ac er mwyn rhoi cyfle i bobl roi eu barn a'u canfyddiadau am dlodi mislif.

2.11 Cafodd yr arolwg ei baratoi drwy ddefnyddio meddalwedd "Questback" ac roedd yn fyw am bythefnos. Ychwanegwyd wythnos arall, rhwng 9 a 27 Gorffennaf, i gynyddu'r gyfradd ymateb. Mae'r holiadur ar gael yn Atodiad A.

3 Canfyddiadau

Darparu nwyddau hylendid

3.1 Dywedodd pob un o'r 28 o ymatebwyr eu bod yn cyflenwi nwyddau hylendid. Nodwyd mai tlodi mislif oedd y prif gymhelliant i gyflenwi'r eitemau hyn (21 o'r 28), a'r galw o du cwsmeriaid oedd yr ail reswm a nodwyd (15 o'r 28) a'r ffaith eu bod wedi cael cynnig yr eitemau fel rhodd oedd y trydydd (13 o'r 28). Dywedodd un banc bwyd mai'r gwirfoddolwyr eu hunain oedd wedi tynnu sylw rheolwr y banc bwyd at y broblem a dyna'r rheswm dros ddechrau cyflenwi'r nwyddau.

3.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut roedd y rhai a oedd yn ymweld â'r banc bwyd yn cael nwyddau hylendid, hy a oeddent yn cael eu cynnig iddynt ynteu a oedd angen iddynt ofyn amdanynt. Dywedodd 21 o'r 28 o ymatebwyr bod y nwyddau'n cael eu *cynnig* i'r rhai a oedd yn defnyddio'r banc bwyd. O'r saith arall, dywedodd dau fod y nwyddau'n cael eu cynnig fel mater o drefn, dywedodd dau arall eu bod ar gael i'r rhai a oedd yn gofyn amdanynt ac roedd gan dri ateb gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys "*gwneud cais amdanynt a'u cynnig", " Os yw merch yn cael ei chyfeirio er mwyn cael nwyddau ymolchi, rydym yn eu cynnig", ac "Mae rhwydd hynt i bobl eu cymryd"*.

3.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymhelaethu ar y broses yn eu banciau bwyd nhw o ran sut y caiff y nwyddau eu cynnig neu sut mae modd gofyn amdanynt. Cafodd yr ymatebion ansoddol eu dadansoddi o ran y prif themâu a oedd yn dod i'r amlwg o'r manylion a gafwyd gan y banciau bwyd.

3.4 Yn y 21 o fanciau bwyd a ddywedodd eu bod yn *cynnig* yr eitemau, byddai staff mewn nifer o safleoedd yn gofyn i gwsmeriaid yn uniongyrchol a oedd angen nwyddau hylendid arnynt ac yn eu rhoi iddynt os oedd angen (15 o'r 21). Dywedodd mai dim ond merched oedd yn cael cynnig y nwyddau, a dim ond os oeddent yn yr oedran "*briodol*". Fodd bynnag, nid oedd atebion rhai ymatebwyr (9 o'r 21) yn cyfeirio at ryw eu cwsmeriaid ac, os oeddent yn ymwybodol bod merched yn rhan o deulu ehangach y cwsmer, byddent yn gofyn a oedd angen eitemau hylendid arnynt. Nododd ymatebydd arall eu bod yn ymwybodol y dylent gynnig nwyddau hylendid i dadau ar gyfer y merched yn y teulu a dywedodd ymatebydd arall fod angen cymryd yn ganiataol bod merch yn rhan o deulu pob un sy'n ymweld â'r banc

bwyd ac y byddent yn falch o'r eitemau. Os felly, mae'n ymddangos bod nwyddau hylendid yn cael eu cynnig yn fwy cyffredinol. O'r 28 o ymatebion a ddaeth i law, dywedodd 22 bod rhai cwsmeriaid yn gofyn am y nwyddau ar ran eu partneriaid neu aelodau eraill o'r teulu.

3.5 Ymatebodd deg o fanciau bwyd drwy ddweud eu bod yn cynnwys yr eitemau mewn pecyn o nwyddau ymolchi cyffredinol a allai gynnwys past dannedd / sebon a dywedodd 13 eu bod yn eu cyflenwi fel pecyn y nwyddau hylendid i ferched (ee tyweli mislif / tamponau). Dywedodd pump eu bod yn defnyddio'r ddau ddull o gyflenwi'r eitemau. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod eu banc bwyd yn cyflenwi tyweli mislif ac roedd pob un ond dau'n cyflenwi tamponau. Nid oedd yr un yn cyflenwi cwpanau mislif nac unrhyw fath arall o ddarpariaeth mislif. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn caniatáu i'r cwsmeriaid ddewis eu nwyddau hylendid. Dim ond pedwar banc bwyd ddywedodd nad oeddent yn rhoi dewis i'w cwsmeriaid.

3.6 Holwyd y banciau bwyd am unrhyw drefniadau ymarferol roedd ganddynt ar waith ar y safle i helpu i ddarparu nwyddau hylendid. Diben hynny oedd ceisio deall y goblygiadau ymarferol sydd ynghlwm wrth ddarparu'r eitemau hyn. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (24 o'r 28) eu bod yn cymryd camau i sicrhau preifatrwydd ac urddas eu cwsmeriaid. Roedd hanner yr ymatebwyr wedi trefnu lle ychwanegol i storio'r eitemau (14 o'r 28). Soniodd naw o'r banciau bwyd am y gwaith roeddent yn ei wneud i gael rhoddion a soniodd pedwar am hyfforddi gwirfoddolwyr. Dywedodd ychydig eu bod yn cadw gwybodaeth am y math o nwyddau a nifer y nwyddau a gaiff eu dosbarthu, ond nid oedd y mwyafrif (24 o'r 28) yn gwneud hynny.

Adborth gan gwsmeriaid

3.7 At ei gilydd, tynnodd 12 o ymatebwyr sylw at y ffaith eu bod wedi cael rhyw fath o adborth gan gwsmeriaid am y nwyddau hylendid roeddent yn eu cael. O'r 12 a oedd wedi cael adborth, dywedodd 12 fod y cwsmeriaid yn ddiolchgar neu'n teimlo rhyddhad ar ôl cael y nwyddau. Roedd un banc bwyd yn teimlo eu bod yn "*helpu i osgoi embaras*" drwy ddarparu'r eitemau ac roedd banc bwyd arall yn dweud eu bod yn gallu sicrhau eu cwsmeriaid y byddant yn dal yno os bydd angen cymorth arnynt yn y dyfodol:

"Fel arfer, mae pobl yn ddiolchgar ac maen nhw weithiau'n gofyn a allan nhw ddod eto os bydd angen. Rydym bob amser yn dweud y gallant."

Rhoddion

3.8 Roedd pob un o'r 28 banc bwyd a ymatebodd i'n harolwg yn cael nwyddau hylendid fel rhan o'u rhoddion. Roedd 25 o'r 28 yn eu cael gan y cyhoedd. Roedd pedwar yn eu cael gan elusennau ac un yn eu cael gan gynhyrchwyr nwyddau hylendid.

3.9 At ei gilydd, dywedodd 16 o ymatebwyr nad oeddent wedi gwneud cais am nwyddau hylendid. Dywedodd y 12 arall eu bod wedi gofyn am yr eitemau neu wedi'u cynnwys yn eu rhestr o roddion posibl. Holwyd yr ymatebwyr gan bwy roeddent yn cael yr eitemau a'r ateb a gafwyd gan mwyaf oedd archfarchnadoedd neu siopau fel fferyllfeydd(6 o'r 12). Soniodd nifer fechan o fanciau bwyd am y cyfryngau cymdeithasol fel ffordd o gael rhoddion o ffynonellau ehangach, a soniwyd am grwpiau ac elusennau lleol hefyd. Ar y cyfan, roedd y ceisiadau hyn am roddion yn llwyddiannus yn ôl 11 safle, ac roedd y llall yn dweud eu bod yn llwyddiannus weithiau.

Y galw am nwyddau / y nifer sy'n eu cymryd

3.10 At ei gilydd, dywedodd 25 o ymatebwyr nad oeddent wedi cymryd camau i gasglu gwybodaeth ynghylch y galw am nwyddau hylendid ymhlith eu cwsmeriaid. O'r tri a ddywedodd eu bod wedi gwneud hynny, teimlai dau eu bod yn cyflenwi digon i fodloni'r galw ac roedd y llall yn teimlo nad oedd y cyflenwad yn ddigonol bob amser.

3.11 Gofynnwyd i'r holl fanciau bwyd ddisgrifio lefel y galw a'r nifer a oedd yn cymryd nwyddau hylendid. Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, dywedodd 21 o fanciau bwyd bod y galw am y nwyddau hyn yn "uchel" neu fod "rhywfaint" o alw amdanynt. Dywedodd tri banc bwyd bod y galw yn isel ac roedd y pedwar arall yn eu rhoi i gwsmeriaid fel mater o drefn ac felly nid oedd yn bosibl iddynt roi sylwadau ar lefel y galw.

3.12 O'r holl ymatebwyr, dywedodd 23 o fanciau bwyd fod y nifer a oedd yn cymryd nwyddau hylendid yn "uchel" neu fod "rhywfaint" o'u cwsmeriaid yn eu cymryd. Nid oedd tri'n gallu rhoi sylwadau gan fod y nwyddau'n cael eu rhoi fel mater o drefn. Dim ond dau ddywedodd mai nifer fechan oedd yn cymryd y nwyddau hyn yn eu banc bwyd.

3.13 Yn gyffredinol, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (17) fod maint y galw'n cyfateb i'r nifer a oedd yn eu cymryd (e.e. galw "uchel" a'r nifer a oedd yn eu cymryd yn "uchel"). Fodd bynnag, mewn pedwar o'r banciau bwyd, roedd "rhywfaint" o alw am y nwyddau ond roedd y nifer a oedd yn eu cymryd yn "uchel".

3.14 Yn y tri banc bwyd a oedd yn weddill, nid oedd maint y galw yn cyfateb i'r nifer a oedd yn cymryd y nwyddau. Nododd un fod y galw'n "uchel" a bod "rhywfaint" yn cymryd y nwyddau, dywedodd yr ail fod y galw'n "isel" ond bod "rhywfaint" yn cymryd y nwyddau ac, yn ôl yr olaf, roedd y nwyddau'n cael eu cynnig fel mater o drefn felly roedd y nifer a oedd yn eu cymryd yn "uchel".

Rhagor o sylwadau gan y banciau bwyd

3.15 Ar ddiwedd yr arolwg, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau eraill i'w cynnig mewn perthynas â thlodi mislif. Roeddent yn cael rhoi'r sylwadau hyn ar ffurf testun rhydd i ganiatáu iddynt roi esboniad llawn o'u pwyntiau yn eu geiriau eu hunain. Cafodd y sylwadau hyn eu dadansoddi i weld a oedd unrhyw themâu yn dod i'r amlwg.

3.16 Un thema a ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi'r sylwadau oedd bod cysylltiad rhwng y rhoddion a'r sylw roedd tlodi mislif wedi'i gael yn y wasg yn ddiweddar. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'u bod yn cael mwy o nwyddau, a hynny'n fwy rheolaidd, oherwydd bod y pwnc yn cael mwy o sylw yn y wasg

> *"Mae llawer o nwyddau hylendid yn cael eu rhoi i ni a hynny'n bennaf oherwydd y sylw y mae tlodi mislif yn ei gael yn y cyfryngau."*
>
> *"Ers i raglen Women's Hour roi sylw i'r broblem beth amser yn ôl, rydym yn cael rhoddion yn rheolaidd gan ferched sy'n awyddus i helpu."*

“Ers i’r ffilm 'I, Daniel Blake' gael ei dangos rai blynyddoedd yn ôl, mae’r cyhoedd yn llawer mwy ymwybodol o’r angen i roi nwyddau ymolchi i fanciau bwyd (nwyddau mislif) ac maent wedi ymateb yn dda drwy roi mwy o’r eitemau hyn.”

3.17 Thema arall a ddaeth i’r amlwg yn y sylwadau oedd nwyddau hylendid mewn ysgolion. Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd gan rai ymatebwyr am ferched ysgol a oedd yn dibynnu ar roddion a, hebddynt, ni fyddai ganddynt nwyddau hylendid a nwyddau ymolchi eraill.

“Mae’r galw am nwyddau mislif yn yr ysgol uwchradd leol wedi bod yn syfrdanol; rydym yn deall ei bod yn arferol i athrawon brynu nwyddau’n rheolaidd i ddisgyblion naill ai drwy ddefnyddio cyllid yr ysgol neu eu harian eu hunain.”

“Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn rhoi tyweli a thamponau i’r ddwy ysgol uwchradd leol i’w rhoi i ferched sy’n ei chael yn anodd fforddio’u prynu eu hunain, fel nad ydynt yn gorfod bod yn absennol o’r ysgol.”

“…mae angen rhoi nwyddau gofal personol fel sebon a diaroglydd gyda’r nwyddau hylendid. Rwyf wedi siarad â chwsmeriaid sy’n dweud bod gan eu plant ormod o gywilydd i fynd i’r ysgol neu’r gwaith oherwydd y problemau hyn. Rwyf wedi neilltuo rhan o’n canolfannau i stori’r nwyddau hyn felly mae angen i mi gael cyflenwad mwy rheolaidd yn awr yn yr holl ganolfannau.”

3.18 Er bod y sylwadau hyn yn ein helpu i ddeall y sefyllfa, y mae tu hwnt i gwmpas y gwaith ymchwil presennol i roi sylwadau ychwanegol ar y problemau hyn. Fodd bynnag, mae’n ymddangos bod maint a natur y cymorth y mae ysgolion yn ei gynnig i liniaru effeithiau tlodi mislif (a thlodi’n fwy cyffredinol yn wir) yn haeddu gwaith ymchwil pellach.

4 Casgliadau

4.1 Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar sampl fechan o fanciau bwyd yng Nghymru; fodd bynnag, mae'n cynnig darlun gwerthfawr o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y banciau bwyd ar hyn o bryd i leihau tlodi mislif. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn cyflenwi nwyddau hylendid i gwsmeriaid eu banciau bwyd ac mae'r rhain, ar y cyfan, yn cael eu cynnig i'r rhai sy'n ymweld â'r banciau bwyd, yn hytrach na bod angen i gwsmeriaid ofyn amdanynt.

4.2 O'r rhai sy'n cynnig yr eitemau, mae'n ymddangos y bydd banciau bwyd, yn gyffredinol, yn *gofyn i gwsmeriaid yn uniongyrchol* a oes angen nwyddau hylendid arnynt ai peidio. Nododd nifer o safleoedd eu bod yn ymwybodol nad dim ond cwsmeriaid benywaidd oedd yn cymryd y nwyddau a bod dynion yn ymweld â banc bwyd ar ran aelodau benywaidd o'r teulu.

4.3 Dywedodd hanner yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael adborth gan gwsmeriaid am nwyddau hylendid, ond roedd cyfran ohonynt wedi cael adborth. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar y teimlad o ryddhad bod y gwasanaeth ar gael. Dywedodd bob un o'r 28 o ymatebwyr eu bod wedi cael y nwyddau fel rhodd, a'r rhan fwyaf ohonynt gan y cyhoedd. Roedd 16 o'r ymatebwyr wedi gofyn am roddion - gan archfarchnadoedd neu siopau fel fferyllfeydd yn bennaf; bu'r ceisiadau hyn yn llwyddiannus

4.4 Dywedodd 21 o fanciau bwyd bod y galw am nwyddau hylenid yn "uchel" neu fod "rhywfaint" o alw amdanynt. Dywedodd tri arall bod galw isel ac roedd y pedwar arall yn darparu'r nwyddau fel mater o drefn. Yn yr un modd, dywedodd 23 o fanciau bwyd bod y nifer a oedd yn cymryd nwyddau hylendid yn "uchel" neu fod "rhai" yn eu cymryd ac nid oedd tri arall yn gallu rhoi sylwadau gan eu bod yn darparu'r nwyddau fel mater o drefn. Dim ond dau ddywedodd bod y nifer a oedd yn eu cymryd yn "isel".

4.5 Roedd yr ymatebion ar ffurf testun rhydd yn graff iawn ac roeddent yn tynnu sylw at ddwy thema amlwg yn ymwneud â thlodi mislif. Y thema gyntaf oedd nifer yr eitemau a oedd yn cael eu rhoi i'r banciau bwyd a'r cysylltiad rhwng hyn a'r sylw roedd tlodi mislif wedi'i gael yn y wasg yn ddiweddar. Teimlai rhai ymatebwyr fod y sylw hwn wedi bod yn gryn hwb. Yr ail thema oedd y nwyddau mislif a oedd ar gael

yn yr ysgolion ac effaith tlodi mislif ar ddisgyblion ysgol. Roedd hyn wedi'i seilio'n bennaf ar dystiolaeth anecdotaidd o achosion roedd yr ymatebwyr wedi clywed amdanynt. Nid oedd cwmpas y gwaith ymchwil hwn yn caniatáu i ni ymchwilio'n fanylach i'r ddwy thema hon, ond mae'n bosibl y gellid cynnal gwaith ymchwil ansoddol mwy trylwyr yn y dyfodol i gael darlun llawnach o'r themâu hyn ac o effeithiau ehangach tlodi mislif mewn lleoliadau eraill.

4.6 Er mai darn o waith ymchwil cymharol fach yw hwn, mae'n bwysig nodi ei fod wedi rhoi dealltwriaeth gychwynnol i ni o rai o'r problemau cysylltiedig â thlodi mislif sy'n wynebu'r rhai sy'n defnyddio banciau bwyd Trussel Trust yng Nghymru. Yn ôl pob golwg, mae'r problemau hyn yn effeithio ar ragor o bobl sydd mewn tlodi yng Nghymru ond, oherwydd cwmpas y gwaith ymchwil presennol, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau pendant yn y cyswllt hwn.

5 Cyfeiriadau

Beck et al (2016), Mapping the growth of the Welsh Food Bank Landscape 1998-2015. [

Channel 4 News, Fact Check. 2018. Period poverty is real. But the average woman isn't spending £500 a year on menstruation

GOV.UK. 2018. Women and girls set to benefit from £15 million Tampon Tax Fund

Plan UK. 2018. Plan International UK's research on period poverty and stigma

Scottish Government, 2018. Providing Free Sanitary Products

Trussell Trust. 2017. Non-food provision' in The Trussell Trust Network in Scotland

Trussell Trust. What We Do The Trussell Trust partners with local communities to help stop

UK hunger

Trussell Trust. Ystadegau diwedd blwyddyn 2017-2018

Llywodraeth Cymru. £1 miliwn i fynd i'r afael â thlodi misglwyf ac urddas. [Fel ar 25 Medi 2018].

Atodiad A

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i nifer o fanciau bwyd yng Nghymru am 'dlodi misglwyf' (lle nad yw eu defnyddwyr yn gallu cael mynediad at nwyddau hylendid benywaidd oherwydd y gost).

Hoffem wybod rhagor am nifer yr achosion o dlodi misglwyf a'r ffordd y mae banciau bwyd Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar hyn o bryd. Bydd yr wybodaeth a ddarparwch inni yn gwbl ddienw ac ni fydd manylion unrhyw ymatebydd neu fanc bwyd yn cael eu cynnwys yn adroddiad terfynol Llywodraeth Cymru. Bydd yr wybodaeth a ddarparwch yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y mater hwn ymhellach, ynghyd â sut i ymateb iddo.

Yn gyntaf, hoffem ofyn rhai cwestiynau ynghylch eich banc bwyd:

Yr ardal yng Nghymru rydych chi'n gweithredu ynddi	
Nifer cyfartalog y defnyddwyr yr wythnos	
Oes gennych wybodaeth gefndir am yr amgylchiadau pam mae eich defnyddwyr yn ymweld â'ch banc bwyd?	

Darpariaeth
Rydym yn deall bod tlodi misglwyf yn gallu bod yn fater sensitif. Byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw eich banc bwyd yn darparu nwyddau hylendid benywaidd i'ch defnyddwyr.
A ydych chi'n darparu nwyddau hylendid benywaidd yn eich banciau bwyd? • Ydyn • Nac ydyn

Os na, pam? ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Does dim galw am nwyddau hylendid benywaidd
- Ni allwn gael gafael ar unrhyw gyflenwadau o nwyddau hylendid benywaidd o gwbl
- Ni allwn gael gafael ar gyflenwadau o nwyddau hylendid benywaidd y mae'r defnyddwyr eu heisiau
- Arall

Os ydych, pam eich bod yn eu cyflenwi? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Galw gan ddefnyddwyr
- Cynigion gan gyflenwyr
- Dealltwriaeth o dlodi misglwyf
- Arall

Sut ydych chi'n cyflenwi nwyddau hylendid benywaidd?

- Ar gais y defnyddwyr
- Cânt eu cynnig i ddefnyddwyr
- Cânt eu darparu fel mater o drefn yn gyffredinol
- Arall - amlinellwch sut y mae eich banc bwyd yn gwneud hynny?

Os yw'r nwyddau'n cael eu cyflenwi ar gais – amlinellwch sut y mae'r broses hon yn gweithio (hy beth sydd angen i unigolyn ei wneud er mwyn cael y nwyddau?)

Os yw'r nwyddau'n cael eu cynnig, amlinellwch sut y mae eich banc bwyd yn gwneud hynny.

A oes achosion lle bo pobl yn gofyn am yr eitemau hyn ar ran eu partner / aelodau eraill o'r teulu? ee teidiau a neiniau a rhieni ar ran eu hwyrion a'u plant / dynion neu fenywod ar ran eu partneriaid?

A ydynt yn cael eu darparu fel (Ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- eitem unigol
- Pecyn o dywelion / damponau
- fel rhan o becyn ymolchi ehangach?

Pa nwyddau hylendid benywaidd ydych chi'n eu darparu? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Tamponau

- Tywelion misglwyf
- Cwpan misglwyf
- Arall (nodwch)

A ydych chi'n cynnig dewis o nwyddau hylendid benywaidd i'ch defnyddwyr?

- Ydyn
- Nac ydyn

A ydych chi wedi gwneud unrhyw drefniadau arbennig er mwyn ichi allu darparu nwyddau hylendid benywaidd? A ydynt yn cael eu darparu fel (Ticiwch bob un sy'n berthnasol): Fel:

- Mwy o le i storio
- Mynd ati i gaffael y nwyddau fel rhoddion
- Hyfforddi gwirfoddolwyr
- Cymryd camau i sicrhau preifatrwydd ac urddas eich defnyddwyr
- Arall
- Dim o'r uchod

A ydych chi'n cadw gwybodaeth am y nwyddau a'r nifer sy'n cael eu dosbarthu (e.e. cadw cofnod o'r nifer yr eitemau a ddosbarthwyd)?

- Ydyn
- Nac ydyn
- Dim yn gwybod
- Os ydych, rhowch fanylion.

Os nad ydych chi'n cynnig nwyddau hylendid benywaidd i'ch defnyddwyr, a yw hyn yn rhywbeth y byddech chi'n cynllunio i'w wneud yn y dyfodol?

- Ydyn
- Nac ydyn
- Dim yn gwybod

Os oes unrhyw beth yn eich rhwystro rhag darparu'r gwasanaeth hwn, dywedwch fwy wrthym am hyn isod os gwelwch yn dda:

A ydych chi wedi cael unrhyw adborth gan eich defnyddwyr ynghylch a nwyddau hylendid benywaidd?

- Do
- Naddo
- Dim yn gwybod

Os do, pa adborth ydych chi wedi'i gael?

Galw

Prin iawn yw'r wybodaeth am y graddau y mae 'tlodi misglwyf' yn digwydd yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol gwybod:

A ydych chi wedi cymryd camau i ganfod a oes galw am nwyddau hylendid benywaidd ymysg eich defnyddwyr?

- Do
- Naddo

Os do, ydych chi'n gwybod a yw'r galw'n uwch na'r cyflenwad o'r nwyddau?

Sut fyddech yn disgrifio'r nifer sy'n cymryd gynhyrchion hylendid benywaidd yn eich banc bwyd

- Nifer fawr yn cymryd
- Rhywfaint yn cymryd
- Nifer isel yn cymryd
- Ddim yn berthnasol – caiff y nwyddau eu cynnig yn gyffredinol

Sut fyddech yn disgrifio'r galw am gynhyrchion hylendid benywaidd yn eich banc bwyd?

- Galw uchel
- Rhywfaint o alw
- Galw isel
- Dim alw
- Ddim yn berthnasol – caiff y nwyddau eu cynnig yn gyffredinol

Rhoddion
A ydych chi'n cael rhoddion o nwyddau hylendid benywaidd? • Ydyn • Nac ydyn Os ydych, pwy sy'n rhoi'r nwyddau hyn? • Elusennau • Cynhyrchydd nwyddau hylendid benywaidd • Aelodau o'r cyhoedd • Arall A ydych chi wedi gwneud cais am roddion o nwyddau hylendid benywaidd? • Do • Naddo Os do, i bwy ydych wedi gwneud y cais am roddion? A gawsoch chi lwyddiant?
A hoffech godi unrhyw bwyntiau eraill am dlodi misglwyf?

Diolch am gwblhau'r arolwg hwn.